# GWELEDIGAETH AM GYMRU GYFIAWN

Sut gall y Senedd frwydro yn erbyn anghyfiawnder ac anghydraddoldeb, gan hefyd amddiffyn pobl a'r blaned.

Tachwedd 2025












OXFAM
CYMRU



**RHAID I'R SENEDD NESAF SICRHAU BOD YMDRIN AG ANGHYDRADDOLDEB YN GENHADAETH GANOLOG IDDI. MAE HYN YN GOLYGU SYMUD Y TU HWNT I ATEBION BYRDYMOR I FYND I'R AFAEL Â GWRAIDD Y BROBLEM ANGHYFIAWNDER. RHAID I NI WRTHOD MODELAU TWF ECSBLOETIOL A DATBLYGU ECONOMI SYDD WEDI'I GWREIDDIO MEWN GOFAL, CYDRADDOLDEB, TEGWCH, LLESIANT A CHYNALIADWYEDD.**

Llun: Pen y Fan Bannau Brycheiniog. Gareth, Stoc Adobe

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Cyfiawnder Economaidd | 6 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 14 |
| Cyfiawnder Hinsawdd | 23 |
| Cyfiawnder Byd-eang | 30 |
| Cyflawni ar gyfer Pobl a’r Blaned | 38 |
| Cyfeiriadau | 40 |

# CYFLWYNIAD

## Mewn byd a nodweddir gan anghydraddoldeb cynyddol ac ymddatodiad yr hinsawdd, mae Cymru'n wynebu dewis diffiniol.


Gallwn arwain y ffordd tuag at gyfiawnder, cynaliadwyedd a thegwch i bawb, neu ganiatáu i'r argyfyngau hyn ddyfnhau, gartref ac yn fyd-eang.

Mae'r heriau sydd o'n blaenau yn aruthrol. Ledled y byd, mae tlodi sefydledig, anghydraddoldeb economaidd cynyddol a chost uwch hanfodion yn gwneud bywyd bob dydd yn frwydr i biliynau.[1] Mae gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau, mae dyled yn cynyddu, ac mae anghenion dyngarol[2] yn gwaethygu yng nghanol gwrthdaro ac anhrefn hinsawdd.

Nid problemau unigol yw'r rhain. Symptomau anghyfiawnderau dwfn ydynt, lle mae pŵer a chyfoeth wedi'u crynhoi yn nwylo'r lleiafrif tra bo lleisiau'r mwyafrif – yn enwedig y rhai sydd wedi'u hymyleiddio oherwydd hil, dosbarth, rhywedd, anabledd, statws mudol, ac agweddau eraill ar hunaniaeth – yn cael eu cau allan.

**Yn fyd-eang, mae**


**838 miliwn**



**o bobl – un o bob deg – yn byw mewn tlodi eithafol[3], a ninnau'n agosáu at oes y triliwnydd cyntaf.[4]**

Mae llywodraethau cyfoethog yn torri cymorth sy'n achub bywydau,[5] yn tanseilio sefydliadau rhyngwladol, ac yn anwybyddu cyfraith ddyngarol. Mae cydraddoldeb rhyweddol yn parhau i fod genedlaethau i ffwrdd,[6] tra bo cydraddoldeb a hawliau menywod dan ymosodiad cynyddol o du cyfundrefnau awdurdodaidd, mudiadau asgell dde eithafol a gwrth-hawliau, a chynnydd yn yr hyn a elwir yn 'rhyfeloedd diwylliannol'[7]. Ar yr un pryd, mae cynnydd byd-eang o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ymhell o fod ar y trywydd iawn.

Yma yng Nghymru, mae tlodi ac anghydraddoldeb yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel. Mae un o bob pedwar unigolyn yn byw mewn tlodi, gan gynnwys bron un o bob tri phlentyn.[8] Mae'r argyfwng costau byw wedi dyfnhau i'r pwynt lle mae caledi wedi'i normaleiddio, tra bo gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau aruthrol. Mae ein system iechyd a gofal cymdeithasol mewn argyfwng, mae anghydraddoldebau'n cynyddu, ac rydym ar ei hôl hi o ran y targedau hinsawdd.



**Mae un o bob pedwar** unigolyn yn byw mewn tlodi, gan gynnwys bron un o bob tri phlentyn.[8]



Mae'r argyfwng costau byw wedi dyfnhau i'r pwynt lle mae caledi wedi'i normaleiddio.

Mae ymrwymiad Cymru i genedlaethau'r dyfodol, llesiant pobl a'r blaned, datblygu cynaliadwy, a chyfrifoldeb byd-eang wedi'i ymgorffori yn y gyfraith – ond nid ydym yn cyrraedd y nod. Mae camau gweithredu ar yr hinsawdd yn rhy araf, ac mae'r analluu i godi refeniw mewn modd teg yn oedi'r buddsoddiad sy'n ofynnol i sicrhau pontio teg. Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn talu'r pris.

Mae'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf – ac maent yn aml yn wynebu nifer o anghydraddoldebau sy'n gorgyffwrdd – yn cael eu heithrio'n rheolaidd o benderfyniadau sy'n llunio eu bywydau. O ofal di-dâl a gwaith ansicr i wasanaethau anhygyrch a phrosesau llunio polisïau sy'n anwybyddu profiadau byw, mae anghydraddoldeb yn rhan annatod o fywyd bob dydd.

**Ac eto, er gwaethaf maint yr heriau hyn, mae Cymru decach, fwy gwyrdd a mwy cyfartal yn bosibl – os dewiswn arweinyddiaeth feiddgar a chamau gweithredu trawsnewidiol.**

Rhaid i'r Senedd nesaf sicrhau bod ymdrin ag anghydraddoldeb yn genhadaeth ganolog iddi. Mae hyn yn golygu symud y tu hwnt i atebion byrdymor i fynd i'r afael â gwraidd y broblem anghyfiawnder. Rhaid i ni wrthod modelau twf ecsbloetiol a datblygu economi sydd wedi'i gwreiddio mewn gofal, cydraddoldeb, tegwch, llesiant a chynaliadwyedd. Nid yw busnes fel arfer yn opsiwn mwyach.

Mae'r papur hwn yn nodi gweledigaeth Oxfam Cymru ar gyfer Cymru decach. Rydym yn galw am weithredu ar draws pedwar piler cydgysylltiedig:


**Cyfiawnder Economaidd**



**Cyfiawnder Cymdeithasol**


**Cyfiawnder Hinsawdd**


**Chyfiawnder Byd-eang**

**Mae cynnydd mewn un maes yn dibynnu ar gynnydd ym mhob un.**

Mae ar Gymru angen mwy o bwerau datganoledig i gyflawni newid gwirioneddol, a dylai gael y pwerau hynny. Ond hyd yn oed yn y setliad presennol, mae yna le – a chyfrifoldeb – i gymryd camau beiddgar. Gyda'r pwerau sydd eisoes ar gael i ni, gall Cymru arwain y ffordd i lunio dyfodol tecach, gwyrddach a mwy cyfartal, ac mae'n rhaid iddi wneud hynny. A chyda'r pwerau cywir ar waith, gallem fynd ymhellach fyth. Mae Cymru well sy'n gofalu am y bobl a'r blaned yn bosibl. Dyma ein cyfle ni i weithredu – gyda'n gilydd, a thros bob un ohonom.




# CYFIAWNDER ECONOMAIDD

Llun: Gwaith Dur TATA Port Talbot, Chunyip Wong, iStock.

# CYFIAWNDER ECONOMAIDD


**Ledled Cymru, mae 700,000 o bobl – 22% o'r boblogaeth – yn byw mewn tlodi.[9] Mae hynny'n fwy na phoblogaethau Caerdydd, Abertawe a Merthyr gyda'i gilydd.**

Mae tlodi'n taro rhai grwpiau'n galetach: mae hanner yr aelwydydd ethnig leiafrifol yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â 22% o'r aelwydydd gwyn,[10] tra bo un o bob pedair aelwyd sydd ag aelod o'r teulu sy'n anabl yn byw mewn tlodi.[11] Mae aelwydydd un rhiant yn wynebu'r cyfraddau tlodi uchaf yng Nghymru, gyda 35% yn byw mewn tlodi[12] – ac mae dros 80% o'r rhieni sengl yn fenywod.[13]

O ran plant Cymru, mae dros un o bob deg (31%) yn byw mewn tlodi, ac mae tlodi plant yn cynyddu gyflymaf ymhlith teuluoedd â phlant ifanc iawn.[14] Ar aelwydydd lle mae'r plentyn ieuengaf o dan bedair oed, mae'r cyfraddau wedi codi o 33% i 45% mewn dim ond pedair blynedd. At ei gilydd, mae 57% o'r plant sydd mewn tlodi o dan bump oed, sy'n tynnu sylw at yr agen dybryd am weithredu yn ystod blynyddoedd cynharaf plentyndod.[15]

Er bod y cyfraddau tlodi cyffredinol wedi aros yn ystyfnig o uchel ers dau ddegawd, mae tlodi 'nawr yn ddyfnach, yn para'n hirach ac yn fwy cymhleth.[16] Ac eto, yn rhy aml mae tlodi'n cael ei drin fel argyfwng byrdymor, er bod argyfwng wedi dod yn normal newydd. Mae gwasanaethau cyhoeddus hanfodol – o ofal plant i iechyd a gofal cymdeithasol – dan ormod o bwysau, ac mae cronfeydd brys megis taliadau dewisol yn llawer is na'r hyn y mae ar bobl ei angen. Mae ffactorau sbarduno strwythurol, megis cyfyngu budd-daliadau i ddau blentyn, gofal plant na ellir ei fforddio, a rhieni – yn enwedig mamau – yn cael eu gwthio allan o'r gweithlu, i gyd yn gwaethygu'r broblem, fel yr amlygwyd yn ymchwil Oxfam Cymru, *Camau Bach, Brwydrau Mawr*.[17]


Mae atebion go iawn yn gofyn am weithredu ar unwaith a newid systemig, fel ei gilydd. Mae taliad plant yr Alban yn cynnig un model – ond byddai darparu hyn yng Nghymru yn galw am ddiwygiadau sylweddol o ran pwerau, cyllid a systemau cyflawni. Yn y cyfamser, rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau beiddgar ac ymarferol: diwygio gofal plant, cryfhau a chynnal cymorth mewn argyfwng, a buddsoddi mewn tai fforddiadwy.[18]



**Mae hanner** yr aelwydydd ethnig leiafrifol yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â 22% o'r aelwydydd gwyn.[10]



Mae aelwydydd un rhiant yn wynebu'r cyfraddau tlodi uchaf yng Nghymru, gyda **35%** yn byw mewn tlodi[12] – ac mae dros **80%** o'r rhieni sengl yn fenywod.[13]



**45%**

o blant 0-4 oed yng Nghymru yn cael eu magu mewn tlodi.

Mae patrymau cyflogaeth yn dyfnhau anghydraddoldeb. Mae gweithgarwch economaidd yng Nghymru (76.1%) yn llusgo y tu ôl i gyfartaledd y DU (78.4%).[19] Mae menywod yn wynebu cyfraddau uwch o anweithgarwch economaidd na dynion (27.2% o gymharu â 20.5%), yn bennaf oherwydd cyfrifoldebau gofalu di-dâl – mae 20.7% o fenywod yn nodi gofalu am deulu fel eu rheswm dros beidio â gweithio, o gymharu â dim ond 6.8% o ddynion.[20]



Mae **20.7% o fenywod** yn nodi gofalu am deulu fel eu rheswm dros beidio â gweithio, o gymharu â dim ond 6.8% o ddynion.[20]

Daw'r anghydraddoldebau hyd yn oed yn fwy amlwg wrth edrych arnynt trwy lens croestoriadol. Dim ond 54.4% yw'r cyfraddau cyflogaeth ar gyfer menywod ethnig leiafrifol, o gymharu â 71.5% ar gyfer menywod gwyn, 73% ar gyfer dynion ethnig leiafrifol, a 76.5% ar gyfer dynion gwyn.[21] Mae diweithdra ymhlith menywod ethnig leiafrifol dair gwaith yn uwch nag ymhlith menywod gwyn (9% o gymharu â 3%). Mae pobl anabl hefyd yn wynebu rhwystrau sylweddol: mae 43% o'r bobl anabl yng Nghymru yn economaidd anweithgar, o gymharu â 40% ledled y DU.[22] Er bod y gyfradd ddiweithdra ar gyfer menywod anabl yn 4% o gymharu â 2.8% ar gyfer menywod nad ydynt yn anabl, nid yw bron hanner (45.3%) yn cyfranogi yn y farchnad lafur o gwbl.[23]

At hynny, er bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr llawn-amser yng Nghymru wedi culhau i 1.9% – sy'n is na chyfartaledd y DU o 7% – mae anghydraddoldeb strwythurol yn parhau.[24] Mae menywod yn parhau i grynhoi mewn rolau gofalu ac iddynt gyflog isel ac yn cael eu heithrio o sectorau â chyflog uwch, sy'n cael eu dominyddu gan ddynion, megis TGCh, ynni ac adeiladu.[25] Ar gyfartaledd, menywod yng Nghymru sy'n ennill y cyflogau isaf yn unrhyw wlad yn y DU.[26]



**Mae'r ffigurau hyn yn gwneud un peth yn glir: mae anghydraddoldeb yn atal Cymru rhag symud ymlaen. Oni bai ein bod yn mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol, ni fydd twf economaidd yn lleihau tlodi – bydd yn dyfnhau rhaniadau ac yn sefydlu anghyfiawnder.**

Mae hynny'n golygu sicrhau cyfleoedd teg a chymorth targededig i'r rhai sy'n gallu gweithio ac am wneud hynny – gan gynnwys rhieni, gofalwyr a phobl anabl – a hefyd gwarantu urddas a chymorth digonol i'r rhai na allant weithio, neu sy'n dewis peidio â gwneud hynny oherwydd salwch, anabledd neu gyfrifoldebau gofalu. Mae cyfiawnder economaidd go iawn yn gofyn am y ddau lwybr: galluogi'r rhai sy'n gallu i gymryd rhan, a diogelu a pharchu'r rhai na allant.

Ni fydd strategaethau twf traddodiadol yn datrys yr heriau hirsefydlog yn economi Cymru. Rhaid i ni symud y tu hwnt i gynnyrch domestig gros fel mesur o gynnydd, a seilio penderfyniadau polisi a gwariant ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig:[27] mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau iechyd a llesiant pobl

a'r blaned. Mae hyn yn golygu rhoi gwerth ar wasanaethau cyhoeddus a seilwaith hanfodol megis iechyd, gofal, gofal plant, a natur ei hun, a buddsoddi ynddynt.[28]



Mae economi deg hefyd yn golygu cydnabod gwir werth gwaith gofal di-dâl – i blant ac i bobl anabl, sâl a hŷn – a natur.

Llun: Lansio Cerdyn Sgôr Polisi Gofal Cymru, Wythnos Gofalwyr, Gorffennaf 2025. Oxfam Cymru.

Byddai datblygu metrigau economaidd newydd sy'n cofnodi cyfraniad llafur di-dâl yn darparu mewnwelediadau hanfodol ar gyfer polisïau llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod gwerth priodol yn cael ei roi ar waith anweledig ond hanfodol.

Fodd bynnag, nid yw cyllideb na fframwaith cyllidol presennol Cymru yn diwallu anghenion y genedl. Mae fformiwla Barnett[29] – a gyflwynwyd fel mesur 'dros dro' yn 1979 – yn dal i fod yn sail i gyllid Cymru, a hynny er gwaethaf beirniadaeth gyffredinol Comisiwn Holtham,[30] Pwyllgor Cyllid y Senedd[31] a sefydliadau trydydd sector,[32] sy'n nodi ei bod wedi dyddio ac yn annheg. Nid yw'n adlewyrchu angen cymharol Cymru, na chostau ychwanegol darparu gwasanaethau mewn cymunedau gwledig a difreintiedig. Trwy'r fformiwla annigonol hon, mae gallu Cymru i weithredu wedi'i gyfyngu gan ei dibyniaeth ar ddyraniadau'r DU. Er enghraifft, mae penderfyniadau mympwyol i gau Cymru allan o symiau canlyniadol – megis ei hepgor o gyllid HS2[33] – wedi lleihau buddsoddiad mewn seilwaith ac wedi sefydlu anghydraddoldebau rhanbarthol.

Mae'r diffyg strwythurol hwn, a waethygwyd gan ddegawd o gyni, wedi gadael gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi'u tanariannu'n enbyd.

**O ganlyniad, mae dros hanner y gyllideb yn cael ei ddefnyddio ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol,[34] gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cael ei wario ar ddatrys argyfyngau – nid yw hyn yn rhoi fawr o gyfle ar gyfer buddsoddiad hirdymor, trawsnewidiol mewn atal, seilwaith a lleihau tlodi.**

I wneud cynnydd go iawn, mae ar Gymru angen mwy o bwerau trethu. Heb y diwygiad hwn, bydd Cymru'n parhau i gael ei thanariannu ac ni fydd yn gallu sicrhau'r buddsoddiad y mae ar ein cymunedau ei angen. Gyda chyllid tecach a phwerau datganoledig cryfach, gallwn adeiladu economi wedi'i gwreiddio mewn gofal, cyfiawnder a llesiant.

**Er mwyn helpu i sicrhau cyfiawnder economaidd, rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ar hyn o bryd yn Senedd Cymru, neu sy'n ceisio cael eu hethol, i ymrwymo i'r canlynol:**

## 1. Gwneud lleihau anghydraddoldeb economaidd yn flaenoriaeth genedlaethol er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon wrth fynd i'r afael â thlodi

Mae ar Gymru angen strategaeth gwrthdlodi gynhwysfawr sy'n rhoi lleihau anghydraddoldeb wrth wraidd datblygiad economaidd. Dylai hyn gyfuno buddion cyflym â diwygiadau hirdymor – darparu cynllun gweithredu ar dlodi plant ac iddo dargedau statudol, cynllunio Taliad Plant Cymru, ehangu prydau ysgol am ddim i ysgolion uwchradd a darparu brecwast, sicrhau gofal plant fforddiadwy, a buddsoddi mewn tai fforddiadwy.[35] Rhaid i raglenni cymorth tlodi fod yn hyblyg ac yn gynaliadwy, a rhaid amddiffyn gwasanaethau hanfodol megis prydau ysgol am ddim a chronfeydd dewisol.

Ochr yn ochr â'r camau hyn, dylai Llywodraeth Cymru roi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddiddymu'r arfer o gyfyngu budd-dal i ddau blentyn ac i ddiwygio nawdd cymdeithasol. Yn anad dim, rhaid rhoi blaenoriaeth i godi safonau byw a llesiant, gan osod y sylfeini ar gyfer newid strwythurol o ran cyllid a lles er mwyn sicrhau cyfiawnder economaidd parhaol.

## 2. Pennu cyfeiriad economaidd clir

Rhaid i Gymru roi llesiant wrth wraidd yr economi, gan ddisodli twf cynnyrch domestig gros â nodau sy'n blaenoriaethu pobl, cymunedau a'r amgylchedd. Mae hyn yn gofyn am gynlluniau cyflawni ar draws y llywodraeth, cyllidebu diwygiedig sy'n gyson â chanlyniadau llesiant, a metrigau economaidd newydd sy'n cofnodi gwerth gwaith domestig di-dâl, gofal a natur.[36] Trwy wneud hynny, gall Cymru bennu cyfeiriad beiddgar sy'n mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ac yn creu dyfodol tecach a gwyrddach yr un pryd.

## 3. Sefydlogi'r seiliau

Er mwyn adeiladu economi gydnerth a theg, rhaid i Gymru fuddsoddi mewn atal, hyrwyddo gwaith teg, a sicrhau trefniadau caffael cyhoeddus moesegol.[37] Mae hyn yn golygu ariannu gwasanaethau sy'n atal tlodi ac

anghydraddoldeb rhag gwreiddio; cydnabod ac unioni anghydraddoldebau presennol sy'n gorgyffwrdd ar draws rhyw, hil, anabledd, oedran a mwy; sicrhau cyflog teilwng, diogelwch a hawliau i bob gweithiwr; a defnyddio arian cyhoeddus i gefnogi busnesau sy'n gweithredu mewn modd cyfrifol tuag at bobl a'r blaned. Bydd sylfaen gadarn yn galluogi Cymru i leihau costau hirdymor a chreu cymdeithas decach.

## 4. Dull llesiant o fynd i'r afael â threthiant datganoledig

Mae'r gyllideb bresennol yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i wneud buddsoddiadau hirdymor, trawsnewidiol gan fod adnoddau ynghlwm wrth wariant mewn argyfyngau a'r pwysau ar y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ar Gymru angen mwy o hyblygrwydd cyllidol – mwy o bwerau i gyflwyno bandiau treth incwm ychwanegol ar gyfer enillwyr uwch, a phwerau benthyca cryfach i gyflawni prosiectau trawsnewidiol mawr.[38] Byddai'r offer hyn yn rhoi mwy o ddylanwad, hyblygrwydd a chapasiti i economi Cymru fuddsoddi.

Yn y cyfamser, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fabwysiadu dull llesiant o fynd i'r afael â threthiant datganoledig – gan ddefnyddio treth nid yn unig i gynyddu refeniw, ond hefyd i lywio cynnydd cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae hyn yn golygu diwygio'r Dreth Gyngor i'w gwneud yn decach,[39] cyflwyno mesurau megis codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd ac ardoll ar gynhyrchion aniach neu rai ag allyriadau uchel – gyda'r elw'n cael ei glustnodi ar gyfer gwasanaethau lleol – a chynnig seibiannau treth i fusnesau sy'n gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfrifol.[40] Trwy symud trethiant tuag at gyfoeth, asedau ac ymddygiadau niweidiol, gall Cymru greu system dreth decach sy'n lleihau anghydraddoldeb, yn cryfhau Llywodraeth Leol, ac yn darparu buddion llesiant parhaol.

## 5. Cyflymu arloesedd a yrrir gan bwrpas

**Mae angen i Gymru greu'r amodau ar gyfer arloesedd trawsnewidiol a chynhwysol sy'n mynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol.**

Mae hyn yn golygu cefnogi ymchwil, sgiliau a buddsoddiad sy'n llywio datrysiadau ar gyfer gofal, yr hinsawdd a llesiant cymunedol – nid elw yn unig.[41] Trwy ganolbwyntio ar arloesedd â diben, gall Cymru ddod yn arweinydd byd-eang o ran adeiladu economi deg, werdd lle mae gan bawb y cyfle i ffynnu.



## 6. Cefnogi busnesau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol

Dylai Cymru flaenoriaethu cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a mentrau dan arweiniad y gymuned sy'n ailfuddsoddi mewn pobl a lleoedd.[42] Wrth gefnogi busnesau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol trwy roi mynediad iddynt at gyllid, cyngor a chontractau cyhoeddus, gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod mwy o'r cyfoeth a grëir yma yn aros yma – gan gryfhau economïau lleol, meithrin cydnerthedd, a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb.

## 7. Dileu anghydraddoldebau o ran gwaith

Rhaid i Gymru gymryd camau beiddgar i ddileu anghydraddoldebau o ran gwaith trwy fynd i'r afael â bylchau cyflog rhwng y rhywiau, ac oherwydd ethnigrwydd ac anabledd, a mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol sy'n cadw menywod a grwpiau wedi'u hymyleiddio allan o swyddi gwell.[43] Mae hyn yn golygu casglu tystiolaeth gadarn i herio arwahanu ar sail rhywedd mewn perthynas â sgiliau a chyflogaeth, cyflwyno trefniadau gorfodol ar gyfer adrodd ar fylchau cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd ac anabledd, a meithrin y broses o adeiladu clymblaid ar draws y llywodraeth, undebau llafur a grwpiau cydraddoldeb i sbarduno newid systemig. Rhaid sicrhau mai gwaith teg yw'r safon i bawb, gan fuddsoddi mewn ailsgilio ac uwchsgilio i baratoi gweithwyr ar gyfer y cyfnod pontio i economi sero net, a gwneud ymrwymiad cenedlaethol o'r newydd i ddod yn genedl Cyflog Byw Gwirioneddol.[44]

## 8. Buddsoddi mewn economi ofalgar ffeministaidd

Mae economi deg yn amhosibl heb sail gofal cadarn. Rhaid i Gymru fuddsoddi mewn economi ofalgar ffeministaidd sy'n trin gofal fel seilwaith cymdeithasol hanfodol.[45] Mae hyn yn golygu cydnabod gwerth gofal di-dâl, tynnu'r elw o ofal cymdeithasol, ailfuddsoddi adnoddau mewn cymunedau, a sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant yn cael cyflog teg, cyflogaeth ddiogel, a chymorth i gamu ymlaen[46] Dylai 'diogelwch gofal' fod yn egwyddor graidd wrth lunio polisïau, gan warantu gofal fforddiadwy o ansawdd uchel trwy gydol bywydau pobl.[47] Rhaid hefyd ddiwygio gofal plant iddo fod yn wirioneddol hygyrch a fforddiadwy, gan roi'r dechrau gorau i blant, galluogi rhieni – yn enwedig menywod – i weithio, a chryfhau'r gweithlu ei hun.[48] Trwy roi gwerth ar ofal a buddsoddi ynddo, gall Cymru sicrhau urddas, cydraddoldeb a llesiant i bawb, gan ysgogi twf economaidd cynaliadwy yr un pryd.




**Rhaid i Gymru fuddsoddi mewn economi ofalgar ffeministaidd sy'n trin gofal fel seilwaith cymdeithasol hanfodol.[45]**

Llun: Digwyddiad Crefftwyr Gofalgar 2023, Senedd



# CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Llun: DragonImages, Stoc Adobe

# CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

**Er gwaethaf ymrwymiadau blaengar Cymru, mae anghydraddoldebau dwfn a pharhaus yn dal i danseilio llesiant, diogelwch ac urddas.**


Y rhai y mae tlodi ac anghyfiawnder yn effeithio fwyaf arnynt yw menywod, pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig, gofalwyr, ac unigolion sy'n wynebu ffurfiau lluosog, croestoriadol ar wahaniaethu. Mae nawdd cymdeithasol annigonol, tanbrisio gwaith gofal, a diffyg tai fforddiadwy yn amddifadu gormod o bobl o'r hanfodion y mae arnynt eu hangen i fyw ag urddas.[49]

Dylai'r system nawdd cymdeithasol weithredu fel rhwyd ddiogelwch i bawb, ond yng Nghymru mae'n methu. Ym mis Gorffennaf 2025, roedd 21% o'r boblogaeth oedran gweithio – dros 400,000 o bobl – yn dibynnu ar Gredyd Cynhwysol, o gymharu â 19% yn Lloegr.[50] Mae mwyafrif y budd-daliadau, gan gynnwys Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP), yn cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU, gan olygu mai ychydig iawn o rym sydd gan y Senedd i lunio'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion Cymru. Mae polisïau cosbol, megis y cyfyngiad o ddau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau, yn gyrru teuluoedd i dlodi dyfnach.[51]

Byddai toriadau arfaethedig Llywodraeth bresennol y DU i fudd-daliadau anabledd a PIP yn ergyd arbennig o drom i Gymru.[52] Mae'r amcangyfrifon yn dangos y gallai incwm 190,000 o bobl – tua 6% o'r boblogaeth – ostwng hyd at 60% erbyn diwedd cyfnod y Senedd hon.[53] Mae'r cyfraddau anabledd yng Nghymru eisoes yn uwch na chyfartaledd y DU, gyda 900,000 o bobl (27% o'r boblogaeth) yn byw ag anabledd, gan gynnwys 11% o oedolion oedran gweithio o gymharu â 7% yn Lloegr.[54]




**Mae'r toriadau hyn yn bygwth cynyddu tlodi ac anghydraddoldeb yn achos pobl anabl yng Nghymru.**



Roedd **21%** o'r boblogaeth oedran gweithio – dros 400,000 o bobl – yn dibynnu ar Gredyd Cynhwysol.[50]



Gallai incwm **190,000** o bobl – tua **6% o'r boblogaeth** – ostwng hyd at **60%** erbyn diwedd cyfnod y Senedd hon..[53]



Mae'r cyfraddau anabledd yng Nghymru eisoes yn uwch na chyfartaledd y DU, gyda **900,000 o bobl** (**27%** o'r boblogaeth) yn byw ag anabledd.[54]


O fewn y terfynau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau pwysig trwy greu System Budd-daliadau Cymru,[55] gan ddwyn ynghyd gynlluniau megis prydau ysgol am ddim, Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor, y Gronfa Cymorth Dewisol, y Grant Hanfodion Ysgol, a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Gan anelu at feithrin cydnerthedd a lleihau dibyniaeth ar fanciau bwyd, mae'r cymorth hwn yn rhaff achub i lawer o deuluoedd incwm isel. Ac eto mae'r system yn parhau i fod yn dameidiog, gyda'r ddarpariaeth anghyson o un awdurdod lleol i'r llall, diffyg ymwybyddiaeth, a phrosesau cymhleth yn gadael llawer o deuluoedd heb y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo.[56] At hynny, nid yw'r taliadau'n mynd bob yn gam â chwyddiant, gan danseilio eu heffeithiolrwydd. Mae trawsnewid yn hanfodol i sicrhau bod System Budd-daliadau Cymru yn gyson, yn hygyrch, yn gynaliadwy ac yn gallu cyrraedd y rhai sydd â'r anghenion mwyaf, gan gynnwys gofalwyr, mewnfudwyr a phobl nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus.

Mae gofal wrth wraidd cyfiawnder cymdeithasol. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae dros 310,000 o bobl yng Nghymru – un o bob deg – yn darparu gofal di-dâl i bobl anabl, sâl a hŷn. Mae bron 60% ohonynt yn fenywod, a bron traean ohonynt yn anabl eu hunain.[57] Mae gofalwyr di-dâl yn wynebu anghydraddoldebau llwyr: mae 100,000 o ofalwyr yn byw mewn tlodi, gyda'r cyfraddau tlodi 30% yn uwch nag ymhlith y boblogaeth gyffredinol. Mae costau byw cynyddol wedi cynyddu'r pwysau – mae 36% o ofalwyr di-dâl yn cael trafferth fforddio bwyd, ac mae 76% o'r rheiny sy'n cael Lwfans Gofalwr yn gofidio am dalu costau byw sylfaenol.[58]


Mae gofal di-dâl hefyd yn cael ei danbrisio'n enbyd. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant, sy'n fenywod yn bennaf, wedi'u crynhoi mewn swyddi ansicr sy'n talu cyflog isel, gyda chyfleoedd cyfyngedig i gamu ymlaen, a hynny er gwaethaf eu cyfraniad hanfodol at gymdeithas.[59] Y canlyniad yw trosiant uchel, prinder yn y gweithlu, a chynnydd mewn anghenion gofal heb eu diwallu.



Mae
**100,000**
o ofalwyr yn byw mewn tlodi[58].



Mae **36%** o ofalwyr di-dâl yn cael trafferth fforddio bwyd



Mae **76%** o'r rheiny sy'n cael Lwfans Gofalwr yn gofidio am dalu costau byw sylfaenol.[58]



Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym ac anghydraddoldebau iechyd sy'n ehangu, dim ond dyfnhau y bydd yr argyfwng ym maes gofal oni bai fod buddsoddiad brys yn cael ei wneud mewn system ofal seiliedig ar hawliau a ariennir yn gyhoeddus, system sy'n gwarantu cymorth fforddiadwy o ansawdd uchel trwy gydol bywydau pobl.

Mae dros 310,000 o bobl yng Nghymru – un o bob deg – yn darparu gofal di-dâl i bobl anabl, sâl a hŷn.



Llun: peopleimages.com, Stoc Adobe


Mae tlodi plant yn argyfwng arall sy'n wynebu Cymru. Mae ganddi'r cyfraddau uchaf yn y DU, gyda bron traean o'r plant yn tyfu i fyny mewn tlodi incwm cymharol – y mwyafrif mewn teuluoedd lle mae'r rhieni mewn gwaith.[60] Yng Nghymru, mae 29% o aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio yn byw mewn tlodi,[61] tra bo 27% o gyplau â phlant yn byw mewn tlodi – 5% yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.[62] Teuluoedd â phlant yw'r gyfran fwyaf o'r rheiny yr effeithir arnynt, gan gyfrif am 35% o'r holl aelwydydd sydd mewn tlodi. Yn y darlun hwn, mae gofal plant yn rhwystr allweddol arall i gyfleoedd. Nid oes gan Gymru o hyd unrhyw gymorth a gefnogir gan y llywodraeth ar gyfer plant dan ddwy oed, gan adael teuluoedd mewn trafferthion. Mae ymchwil Oxfam Cymru yn dangos bod 43% o rieni yn cwtogi ar hanfodion ar ôl talu am ofal plant, a bod 53% o'r farn bod gwaith am dâl yn anymarferol yn ariannol ar ôl ystyried costau gofal plant.[63] Nid yw Dechrau'n Deg, sydd wedi'i gyfyngu i gymhwysedd seiliedig ar god post, wedi llwyddo i gyrraedd llawer o deuluoedd. Er i Lywodraeth Cymru addo estyn y cynllun i bob plentyn dwy oed erbyn mis Ebrill 2025, mae hyn bellach wedi'i ohirio tan adeg amhenodol yn 2026.[64] Mae buddsoddiadau beiddgar mewn gofal plant yn hanfodol i fynd i'r afael â thlodi – gan ei wneud yn wirioneddol fforddiadwy a hygyrch, gwella amodau ar gyfer y gweithlu, a sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.[65]



Mae hiliaeth strwythurol, anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, a'r argyfwng tai hefyd yn atgyfnerthu anghyfiawnder. Mae pobl o gefndiroedd hil-ddiffiniedig, ymylol ac ethnig leiafrifol yn wynebu cyfraddau tlodi uwch, cyflogaeth is, a rhwystrau systemig ym maes addysg, gofal iechyd a thai.

Mae menywod yn wynebu bwlch cyflog parhaus rhwng y rhywiau, gwahanu galwedigaethol, a chyfraddau uchel o drais ar sail rhywedd, a hynny lle bo gwasanaethau, yn aml, heb fod yn ystyriol o drawma nac yn ymatebol i rywedd. Yn y cyfamser, mae dros 170,000 o bobl – tua 90,000 o aelwydydd – yn parhau i fod ar restrau aros am dai cymdeithasol, tra bo rhenti preifat yn parhau i gynyddu.[66] Heb gartrefi diogel a fforddiadwy, ni ellir cyflawni cyfiawnder cymdeithasol.


Mae cyflawni cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru yn gofyn am gamau beiddgar: rhoi gwerth ar ofal fel seilwaith hanfodol, diwygio a chryfhau System Budd-daliadau Cymru, buddsoddi mewn gofal plant a gofal cymdeithasol, adeiladu cartrefi fforddiadwy, a chwalu anghydraddoldebau systemig. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu'n bendant i sicrhau urddas, cydraddoldeb a chyfle i bawb, gan sicrhau nad oes neb yng Nghymru yn cael ei adael ar ôl.



Mae **29%** o aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio yn byw mewn tlodi.[61]



**43%** o rieni yn cwtogi ar hanfodion ar ôl talu am ofal plant.



**53%** o'r farn bod gwaith am dâl yn anymarferol yn ariannol ar ôl ystyried costau gofal plant.[63]

**Er mwyn helpu i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ar hyn o bryd yn Senedd Cymru, neu sy'n ceisio cael eu hethol, i ymrwymo i'r canlynol:**

## 1. Cryfhau'r system nawdd cymdeithasol ar gyfer pawb

Mae pawb yn haeddu safon byw ddiogel, ni waeth beth yw heriau bywyd. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gynyddu a diogelu gwir werth darpariaeth nawdd cymdeithasol ddatganoledig, gan ar yr un pryd ehangu cymhwysedd a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arno fel bod cymorth yn cyrraedd pawb y mae arnynt ei angen. Dylai Cymru bwyso am ddatganoli mwy o bwerau nawdd cymdeithasol a sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer System Budd-daliadau Cymru. Mae cryfhau budd-daliadau Cymru yn golygu gweithredu i wrthbwyso effaith y diwygiadau i fudd-daliadau'r DU a darparu cyfiawnder cymdeithasol gwirioneddol trwy gynllunio cymorth trwy lens groestoriadol – gan sicrhau bod menywod, plant, cymunedau hil-ddiffiniedig, mudwyr, ceiswyr lloches a gofalwyr di-dâl yn cael y cymorth targededig y mae arnynt ei angen.

## 2. Camau i gyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant yn llawn

Mae'r gyfradd tlodi uchel ymhlith aelwydydd sy'n gweithio yn dangos – o ganlyniad i swyddi ansicr, cyflogau isel a chostau byw cynyddol – nad yw cyflogaeth yn unig yn ddigon mwyach i godi teuluoedd allan o dlodi. Felly, rhaid i drefniadau i fynd i'r afael â thlodi plant ganolbwyntio ar fwyhau incwm teuluoedd – gan sicrhau y gall rhieni dalu am hanfodion ac amddiffyn plant rhag effeithiau niweidiol tlodi. Mae'r cap ar fudd-daliadau i ddau blentyn yn unig a'r gofyniad i weithio 16 awr a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn gwthio teuluoedd yn ddyfnach i dlodi; rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru barhau i eiriol dros eu diddymu, gan hefyd ddefnyddio ei phwerau datganoledig i liniaru eu heffaith.

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant[67] yn gam i'w groesawu, ond heb dargedau clir, mesuradwy ni all ysgogi'r newid y mae ar Gymru ei angen. **Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gynnwys lleihau tlodi plant mewn strategaeth gwrthdlodi ehangach, gyda chamau integredig ar draws meysydd tai, gofal plant a chymorth ariannol**. Yn y byrdymor, byddai buddsoddiad brys mewn gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn cefnogi datblygiad cynnar plant ac yn galluogi rhieni – yn enwedig menywod – i ddychwelyd i'r gwaith.[68]

Yn y tymor hwy, dylai cyflwyno Taliad Plant Cymru, wedi'i fodelu ar Daliad Plant yr Alban, fod yn flaenoriaeth wedi i'r pwerau cyllidol angenrheidiol gael eu sicrhau. Mae dileu tlodi plant yn hanfodol er lles cenedlaethau'r dyfodol, a rhaid i hyn fod wrth wraidd cenhadaeth Cymru dros gyfiawnder cymdeithasol.

## 3. Sicrhau cyfiawnder i ofalwyr di-dâl

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno cynllun gweithredu pwrpasol i gau'r bwlch rhwng yr hawliau a addawyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[69] a'r realiti y mae gofalwyr yn ei brofi.[70] Rhaid i'r cynllun hwn gael ei gyd-gynhyrchu'n llawn â gofalwyr di-dâl a'u sefydliadau, tynnu ar werthusiadau diweddar, a sicrhau trefniadau cyflawni a monitro cyson ledled pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r ymdrechion i nodi gofalwyr di-dâl yn dal i fod yn annigonol. Gyda chofrestr genedlaethol yn cael ei hystyried yn anymarferol, rhaid i'r Senedd nesaf archwilio atebion amgen ar fyrder – megis cyfrifiad cynhwysfawr o ofalwyr – a chynnull bwrdd crwn gyda'r holl randdeiliaid.[71] Rhaid sicrhau dim oedi o ran nodi gofalwyr di-dâl a mynd i'r afael â'r unigrwydd a'r tlodi y maent yn eu hwynebu'n rhy aml.

Mae gofalwyr yn haeddu cymorth sicr, teg. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddarparu cyllid hirdymor ar gyfer y Gronfa Gymorth i Ofalwyr,[72] ymrwymo i lunio adroddiadau cyhoeddus blynyddol ar hawliau gofalwyr, a lansio ymgyrch genedlaethol i wella dealltwriaeth o hawliau ac i helpu mwy o bobl i gydnabod eu bod yn ofalwyr.[73] Rhaid iddi hefyd fynd i'r afael ag anghysondebau o ran trefniadau codi tâl lleol, diwygio'r cynllun teithio (Cerdyn Cydymaith), a gweithio gydag awdurdodau lleol i osod targedau ymarferol.[74] Ochr yn ochr â hyn, rhaid i Gymru ddefnyddio pob lifer sydd ar gael i sicrhau nad oes unrhyw ofalwr di-dâl yn cael ei adael mewn tlodi nac wedi'i ynysu, gan bwyso ar Lywodraeth y DU yr un pryd i ddiwygio'r Lwfans Gofalwr, cryfhau cymorth lles, a chyflwyno absenoldeb â thâl i ofalwyr ar gyfer y rheiny sy'n cydbwyso gwaith di-dâl a gwaith am dâl.[75]




## 4. Rhoi gwerth ar weithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant, a'u hamddiffyn

Rhaid i bob plaid wleidyddol yng Nghymru ymrwymo i sicrhau bod pob gweithiwr gofal cymwys yn cael o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol, ac yn destun prosesau monitro cryfach, cofnodion tryloyw a gorfodaeth.[76] Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng o ran recriwtio a chadw staff,

dylai Aelodau’r Senedd fynd gam ymhellach trwy gefnogi gwell Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gydnabod y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth gefnogi teuluoedd, cymunedau ac economi ehangach Cymru.

Er mwyn sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd ym maes gofal plant, rhaid i’r cyllid adlewyrchu gwir gost y ddarpariaeth a chael ei ategu gan egwyddorion gwaith teg. Mae hyn yn cynnwys gwarantu Cyflog Byw Gwirioneddol ledled y sector, yn ogystal â llwybrau clir i gamu ymlaen mewn gyrfa a chymorth llesiant cadarn i weithwyr gofal plant.[77] Dylai Cymru hefyd fuddsoddi mewn strategaethau targededig ar gyfer recriwtio a chadw staff, archwilio modelau ariannu arloesol, a chyhoeddi data tryloyw ar y gyllideb gofal plant.

**Trwy gydnabod bod gofal plant yn seilwaith hanfodol, gall Cymru hyrwyddo tegwch i deuluoedd, diogelwch i weithwyr, a sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol pob plentyn.**

Mae system gofal deg hefyd yn golygu amddiffyn hawliau gweithwyr. Dylai Cymru sefydlu proses bwrpasol i fonitro a gorfodi hawliau cyflogaeth, cyhoeddi data rheolaidd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y sector gofal, a chryfhau trefniadau diogelu rhag gwahaniaethu ac aflonyddu. Byddai ymgorffori safonau rhyngwladol, megis Confensiwn ILO 189 ar waith teilwng i weithwyr gofal, yn darparu’r fframwaith angenrheidiol i sicrhau triniaeth deg ac urddas yn y gwaith.[78] **Trwy roi gwerth ar y gweithlu gofal cyflogedig, a buddsoddi ynddo, gall Cymru ddarparu gwell swyddi, gwasanaethau cryfach, a chymdeithas fwy cyfiawn.**

## 5. Gwella’r system addysg gynnar a gofal plant

Mae angen ailwampio system gofal plant Cymru yn llwyr. Mae mynediad at ofal plant yn parhau i fod yn anghyson, yn anfforddiadwy ac yn anghynaliadwy, ac ni roddir digon o werth ar y gweithlu, na’u talu’n ddigonol.[79] Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno un broses ymgeisio symlach ar gyfer yr holl gymorth gofal plant, ac ehangu’r ddarpariaeth i gynnig 30 awr o ofal plant wedi’i ariannu o’r adeg y daw absenoldeb rhiant i ben, gan estyn y cymhwysedd i rieni di-waith, gweithwyr rhan-amser, a cheiswyr lloches.[80] Rhaid i gynllun cenedlaethol hefyd warantu gofal plant cynhwysol, gan sicrhau bod plant anabl a’r rhai ag anghenion ychwanegol yn cael eu cefnogi’n llawn.

Yn yr hirdymor, dylai pob plaid a gynrychiolir yn y Senedd fynd ati i archwilio modelau amgen, megis gwarant gofal plant – a gynigiwyd gan Pregnant Then Screwed a’r New Economics Foundation – sy’n gosod cap o 5% o’r incwm teuluol

ar gostau gofal plant, gan leihau costau i'r rhan fwyaf o deuluoedd a galluogi mwy o rieni i weithio.[81] Dylai hyn fod yn rhan o lwybr tuag at hyd at 50 awr yr wythnos o ofal plant cyffredinol, rhad ac am ddim i bob plentyn chwe mis oed a hŷn, gan sicrhau bod gofal plant yn darparu ar gyfer plant, rhieni a'r economi, fel ei gilydd.

## 6. Cydnabod a rhoi gwerth ar ofal yn y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

Boed hynny am dâl neu'n ddi-dâl, gofal yw sylfaen ein cymdeithas a'n heconomi, ac eto mae'n parhau i fod yn anweledig yn Nangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru.[82] Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno dangosydd llesiant pwrpasol ar gyfer gofal – sy'n cwmpasu gofal plant, gofal cymdeithasol a gofal di-dâl – er mwyn mesur ei gyfraniad a rhoi gwerth priodol arno.



**Dylai dangosyddion cadarn olrhain profiadau'r rhai sy'n darparu gofal a'r rhai sy'n ei gael, gan sbarduno mwy o fuddsoddiad a diwygiadau ledled y system. Mae'n hanfodol rhoi gofal wrth wraidd nodau llesiant Cymru er mwyn sicrhau urddas, cydraddoldeb a diogelwch i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.**

## 7. Sicrhau bod hawliau dynol a chydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio ar draws y broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau

Nid delfrydau haniaethol yw hawliau dynol – maent yn sail i urddas, cydraddoldeb a diogelwch. Ac eto mae gormod o bobl yng Nghymru yn cael eu hamddifadu o'r hawliau hyn, o fynediad at fwyd i'r gallu i sicrhau cartref diogel, gyda'r cymunedau mwyaf ymylol yn cael eu taro galetaf. Rhaid i Gymru ymrwymo i ddull beiddgar, seiliedig ar hawliau o ymdrin â pholisi a gwariant, gan ymgorffori cyfraith ryngwladol yn neddfwriaeth Cymru a dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am ei chyflawni.

Rhaid hefyd roi prif ffrydio cydraddoldeb wrth wraidd pob penderfyniad.[83] Mae hyn yn golygu symud y tu hwnt i asesiadau o effaith lle caiff blychau eu ticio a thuag at ddadansoddiad ystyrlon o'r modd y mae polisïau'n effeithio ar wahanol grwpiau, gan sicrhau bod gwasanaethau'n ymatebol i anghenion amrywiol a bod adnoddau'n cael eu dyrannu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemig. **Trwy ymgorffori hawliau dynol a chydraddoldeb ym mhob cam o'r broses llunio polisïau, gall Cymru adeiladu cymdeithas decach a mwy cynhwysol lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.**



# CYFIAWNDER HINSAWDD

Llun: Mitchell Orr. Cymru, Unsplash

# CYFIAWNDER HINSAWDD

**Mae'r argyfwng hinsawdd ac anghydraddoldeb cynyddol yn ddau argyfwng cysylltiedig, y naill a'r llall yn cael eu llywio gan system economaidd sy'n ecsbloetio pobl a'r blaned.**

Er mai'r ychydig cyfoethocaf sydd fwyaf cyfrifol am allyriadau, pobl mewn tlodi a chymunedau wedi'u hymyleiddio – yn enwedig yn Ne'r Byd – sy'n dwyn y baich trymaf.



Mae gan Gymru, â'i Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i gwaddol o fod y genedl gyntaf i ddatgan argyfwng hinsawdd,[84] yr adnoddau a'r cyfrifoldeb i arwain cyfnod pontio teg nad yw'n gadael neb ar ôl.

Mae cyfiawnder hinsawdd yn golygu mwy na dim ond lleihau allyriadau a datgarboneiddio'r sectorau sy'n llygru fwyaf. Mae'n golygu mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau dwfn o ran pwy sy'n achosi'r broblem, pwy sy'n dioddef o'i heffeithiau, a phwy sydd â'r adnoddau i ymateb, gan hefyd fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau cymdeithasol, economaidd, rhyweddol a hiliol sy'n achosi'r argyfwng hinsawdd ac yn symptomau ohono. Yn rhy aml, nid yw polisïau cyfredol yn llwyddo i integreiddio cyfiawnder cymdeithasol, gan adael aelwydydd incwm isel wedi'u heithrio o gynlluniau ôl-osod, pobl anabl a gofalwyr wedi'u torri i ffwrdd oddi wrth drafnidiaeth carbon isel, a gweithwyr mewn diwydiannau carbon-ddwys yn ansicr ynghylch eu dyfodol.

Rhaid i ni gyflymu'r gwaith o weithredu ar yr hinsawdd, gan sicrhau bod tegwch, cyfranogiad a chyfiawnder wedi'u hymgorffori ym mhob cam. **Ni allwn fforddio cyfnod pontio anghyfiawn arall, megis y dinistr a achoswyd pan gaewyd y pyllau glo yn yr 1980au. Rhaid i Gymru osgoi camgymeriadau'r gorffennol, ac yn lle hynny ddatgloi cyd-fanteision – cartrefi cynhesach, biliau rhatach, aer glanach, trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, a swyddi gwyrdd da.**

Eto i gyd, mae cynnydd yng Nghymru wedi dod i stop. Mae uchelgeisiau wedi symud am yn ôl mewn meysydd hollbwysig megis trafnidiaeth, amaethyddiaeth a thai; cefnwyd ar y targed lleihau allyriadau ar gyfer 2035, ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Pontio Teg er gwaethaf yr ymgynghori.[85] Heb weithredu'n gyflymach, bydd sero net erbyn 2050 y tu hwnt i gyrraedd.

**Wrth wraidd cyfiawnder hinsawdd y mae cyfranogiad ystyrlon. Ni ddylai gweithwyr, gofalwyr, cymunedau, pobl ifanc na phawb yr effeithir arnynt fwyaf dderbyn newid yn oddefol; dylent yn hytrach fynd ati'n weithredol i'w lunio.**




Llun: Cynhadledd Economi Llesiant, Abertawe, 2024. iNNOVATIONphotography

Os yw'r cyfnod pontio'n rhywbeth sy'n digwydd i bobl yn hytrach na *gyda* phobl, bydd ymddiriedaeth y cyhoedd yn erydu. Felly, rhaid i gyfiawnder hinsawdd fod yn egwyddor arweiniol ar gyfer pob penderfyniad – gan ymgorffori hawliau dynol, lleihau tlodi, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a sicrhau dyfodol tecach a gwyrddach i bawb.

**Er mwyn helpu i sicrhau cyfiawnder hinsawdd, rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ar hyn o bryd yn Senedd Cymru, neu sy'n ceisio cael eu hethol, i ymrwymo i'r canlynol:**

## 1. Gosod targedau carbon domestig uchelgeisiol

Amlygodd Adroddiad Cynnydd 2023 y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd fod y cynnydd mwyaf o ran cyllideb garbon Cymru wedi bod mewn meysydd sydd dan reolaeth Llywodraeth y DU, tra bo meysydd datganoledig megis amaethyddiaeth, gwastraff, a chludiant ar y ffyrdd wedi bod ar ei hôl hi.[86] Rhaid i'r Senedd nesaf fod yn fentrus a chyflymu ymdrechion yn y sectorau hyn.

Dylai Cymru fabwysiadu argymhellion Grŵp Her Sero Net Cymru 2035 yn llawn, gan ymgorffori tegwch a chyfiawnder ym mhob targed.[87] Rhaid gosod targedau carbon uchelgeisiol, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ysgogi gweithredu go iawn yn hytrach na dibynnu ar wrthbwyso. Mae hyn yn golygu ymgorffori Pedwaredd Gyllideb Garbon y Pwyllgor Newid Hinsawdd, sef lleihau allyriadau o leiaf 73% erbyn 2031-35, gan gynnwys awyrennau a llongau yn benodol.[88]

Dylai Cymru ymrwymo i gap o 0% ar gredydau carbon rhyngwladol, gan sicrhau bod pob gostyngiad yn cael ei gyflawni'n ddomestig trwy ddatgarboneiddio cadarn ar lawr gwlad.[89] Rhaid i drefniadau cyfrifyddu allyriadau tryloyw, fesul sector, barhau i fod yn sail i bolisi, gan ddarparu eglurder, atebolrwydd a thegwch. Trwy sicrhau toriadau go iawn i allyriadau yng Nghymru, gallwn arwain y gwaith o weithredu dros yr hinsawdd yr un pryd â chreu swyddi, gwella iechyd, ac adeiladu dyfodol gwirioneddol gynaliadwy.

## 2. Sicrhau bod lleihau anghydraddoldeb yn un o amcanion canolog yr holl bolisïau a chamau gweithredu ar yr hinsawdd

Rhaid i'r Senedd a phob plaid wleidyddol a rhanddeiliad ymrwymo i roi cydraddoldeb wrth wraidd agenda hinsawdd Cymru. Rhaid i leihau anghydraddoldeb sefyll ochr yn ochr â thorri allyriadau fel nod cenedlaethol canolog. Mae cyfiawnder hinsawdd yn galw am gydnabod a grymuso'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf, sicrhau bod gan gymunedau ddylanwad gwirioneddol ar benderfyniadau, rhannu buddion a beichiau'n deg, a mynd i'r afael ag anghyfiawnderau'r gorffennol a'r presennol, fel ei gilydd.[90] Rhaid i Gymru fynd ar drywydd hyn ag uchelgais drawsnewidiol – gan fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol trwy newid systemig, beiddgar sy'n darparu dyfodol tecach a gwyrddach i bawb.

## 3. Ehangu'r economi werdd ac ymgorffori cyfiawnder yn graidd iddi

**Dylid ehangu'r diffiniad o'r economi werdd y tu hwnt i sectorau allyriadau uchel fel ei fod yn cynnwys meysydd sylfaenol tebyg i addysg, iechyd a gofal – gan gydnabod eu bod yn sectorau carbon isel hanfodol sy'n cynnal llesiant a chydnerthedd.**[91] Rhaid blaenoriaethu'r sectorau hyn ar gyfer buddsoddiad o fewn strategaeth economaidd Cymru, gan sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn hanfodol i ddyfodol cyfiawn a chynaliadwy. Ochr yn ochr â hynny, rhaid i'r llywodraeth nesaf gyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu gwrth-dlodi targededig sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb, gan ymgorffori gwaith lleihau tlodi yn y cyfnod pontio teg.  Trwy ymgorffori cyfiawnder cymdeithasol ac adeiladu economi ofalgar ochr yn ochr â datgarboneiddio, gall Cymru gyflawni economi werdd sy'n gweithio i bobl a'r blaned fel ei gilydd.[92]

## 4. Cyhoeddi Strategaeth Pontio Teg ac iddi dargedau clir




Rhaid i'r Senedd gyhoeddi Strategaeth Pontio Teg[93] ar fyrder, a sefydlu Comisiwn Pontio Teg parhaol, statudol i osod targedau a llwybrau clir tuag at economi werdd a gofalgar.

Rhaid i hyn gynnwys cerrig milltir dros dro hyd at 2050, gyda threfniadau tracio blynyddol, craffu cadarn, a'r defnydd o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol i sicrhau bod y cyfnod pontio yn mynd ati i leihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u cadarnhau. Trwy ymgorffori cydweithio ledled y DU a rhannu gwybodaeth, gall Cymru arwain y ffordd o ran datblygu cyfnod pontio teg, cyflym ac atebol sy'n sicrhau gweithredu ar yr hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol.

## 5. Ehangu trefniadau teithio rhatach, ar lwybr tuag at gyfle i bawb deithio ar fysiau yn rhad ac am ddim

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddarparu system drafnidiaeth sy'n deg, yn hygyrch ac yn gynaliadwy.[94] Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a hygyrch; mynd i'r afael â bylchau o ran trafnidiaeth wledig; a sicrhau bod opsiynau teithio llesol – cerdded, beicio, olwynio –

yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn cael eu hintegreiddio'n llawn ar draws polisïau'r llywodraeth. Rhaid i'r gwaith o gynllunio trafnidiaeth hefyd fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran rhywedd a gofal: mae ymchwil yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o dderbyn cyflog is yn gyfnewid am deithiau byrrach i'r gwaith, gan gyfyngu ar eu cyfle i gamu ymlaen yn eu gyrfa a lledu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.[95] Dylid gweithredu ar unwaith trwy estyn y cynllun teithio rhatach a theithio gyda chydymaith, a dylai pob plentyn a pherson ifanc deithio am ddim. Trwy flaenoriaethu trafnidiaeth hygyrch, ddiogel a chynhwysol, gall Cymru ostwng allyriadau, lleihau anghydraddoldeb, a sicrhau y gall pawb – lle bynnag y maent yn byw – gysylltu â swyddi, gwasanaethau a chyfleoedd.

## 6. Sicrhau proses deg ar gyfer pontio i ynni adnewyddadwy

Rhaid i'r Senedd nesaf sicrhau bod proses Cymru o drawsnewid i ynni adnewyddadwy yn gyflym ac yn deg. Mae hyn yn golygu bod buddion cymunedol diffiniedig a chydberchnogaeth orfodol yn ofynnol yn achos pob prosiect adnewyddadwy newydd, a hynny fel bod pobl leol a chymunedau'n rhannu'r enillion yn uniongyrchol.[96]

> *Rhaid i gyfnod pontio teg hefyd fynd i'r afael ag anghydraddoldeb: mae cyfiawnder hinsawdd yn gyfiawnder cymdeithasol*

Mae hyn yn gofyn am fesurau rhagweithiol i gefnogi menywod a phobl o grwpiau ymylol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno â'r sector ynni glân, ochr yn ochr â chyllid ar gyfer newid diwylliant y gweithle i feithrin diwydiannau gwirioneddol gynhwysol.

## 7. Ymgorffori cyfranogiad ystyrlon yn y cyfnod pontio teg

Dim ond gydag ymddiriedaeth a chyfranogiad pobl a chymunedau y gall cyfnod pontio teg lwyddo. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sefydlu prosesau cyfranogi cynhwysfawr a chynhwysol ar draws pleidiau ac ar lawr gwlad, prosesau sy'n cynnwys mecanweithiau ar gyfer adborth ymatebol i lywio polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau a bywoliaethau. Mae cefnogaeth y cyhoedd yn alluogwr hanfodol: rhaid monitro ac adrodd ar ganfyddiadau o degwch ac ar yr effaith mewn modd tryloyw er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio nid yn unig yn cael ei gyflawni mewn modd teg, ond bod y profiad ohono'n deg hefyd.

## 8. Gorfodi'r llygrwyr mwyaf a chyfoethocaf i ariannu dulliau teg o weithredu ar newid hinsawdd

Ni all Cymru gyflawni cyfiawnder hinsawdd heb gyllid teg a chynaliadwy. Rhaid i'r rhai sydd fwyaf cyfrifol am yr argyfwng hinsawdd gyfrannu fwyaf at y datrysiadau. Mae hyn yn golygu cydweithio â Llywodraeth y DU ar drethiant cynyddol[97] – megis gweithredu treth ar elw gormodol ar gynhyrchwyr tanwydd ffosil ac *ardoll ar ehedwyr mynych, a threthu teithio moethus* – yr un pryd ag archwilio rheolaeth ddatganoledig ar Ystad y Goron[98] i ariannu'r broses datblygu ynni gwyrdd yng Nghymru. Rhaid sefydlu mesurau pendant i gynhyrchu llawer mwy o refeniw a chymell gostyngiadau mewn allyriadau trwy orfodi'r llygrwyr mwyaf a chyfoethocaf i dalu am y difrod y maent yn ei achosi. Mae'r dull hwn yn gweithredu ar y dystiolaeth mai'r cyfoethocaf sy'n llygru fwyaf, ac yn sicrhau bod gweithredu dros yr hinsawdd yn deg ac yn cael ei ariannu'n ddigonol.


## 9. Chwarae rôl weithredol ar y llwyfan byd-eang




**Rhaid i Gymru amlygu arweinyddiaeth fyd-eang feiddgar mewn perthynas â chyfiawnder hinsawdd, a hynny trwy ymgorffori tegwch a chyfiawnder ym mhob targed ac ymrwymo i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2035.**

Llun: Oxfam Awstralia, 2019.

Dylai pob plaid wleidyddol fynd ati'n weithredol i gefnogi mentrau rhyngwladol megis yr ymgyrch Ras i Sero[99] a phartneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant,[100] gan sicrhau mai Cymru yw'r genedl Ras i Sero gyntaf sy'n seiliedig ar gamau gweithredu a chydsafiad dan arweiniad y gymuned. Yn hollbwysig, dylai Cymru ymrwymo i lofnodi'r Cytuniad ar Atal Twf Tanwyddau Ffosil[101] – cytundeb rhyngwladol uchelgeisiol i roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio glo, olew a nwy, gan sicrhau cyfnod pontio teg byd-eang lle na fydd unrhyw wlad, cymuned na gweithiwr yn cael ei adael ar ôl. Trwy chwarae rhan weithredol ar lwyfan y byd, gall Cymru arddangos ei chyflawniadau ac ysgogi momentwm rhyngwladol dros gyfiawnder hinsawdd.



# CYFIAWNDER BYD-EANG

Llun: Tiriogaeth Palestinia, Oxfam.

# GLOBAL JUSTICE

**Mewn byd sy'n gynyddol gydgysylltiedig, lle mae argyfyngau'n drawsgenedlaethol, rhaid i'r Senedd nesaf amlygu cydsafiad gwirioneddol â phobl sy'n wynebu tlodi, gwrthdaro ac argyfyngau a chyfyngder dyngarol ar hyd a lled y byd.**

Mae hyn yn golygu hyrwyddo ymrwymiadau a rhwymedigaethau rhyngwladol y DU o dan gyfraith ryngwladol, a chyfrannu atynt. Mae gan Gymru hanes balch o fod yn genedl sy'n ceisio sicrhau heddwch – o Gynghrair y Cenhedloedd[102] i Ddeiseb Heddwch hanesyddol Menywod Cymru,[103] a lofnodwyd gan bron 400,000 o fenywod, a Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, a gyhoeddir yn flynyddol ers 1922.[104] Adleisiwyd yr etifeddiaeth hon trwy gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[105] yng nghyfraith Cymru, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth weithredu er budd pobl ym mhobman.[106] Mae Cymru yn Genedl Noddfa,[107] sy'n ymgorffori diwylliant a gwerthoedd Cymru trwy groesawu ac integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches – er gwaetha'r ffaith mai gan San Steffan y mae'r pwerau mewnfudo, ac ymdrechion rethreg asgell dde eithafol i danseilio gwerthoedd ac ymrwymiadau Cymru.

Mae anghydraddoldebau enfawr yn parhau i fodoli'n fyd-eang o ran cyfoeth, pŵer a chyfle.

Mae gwledydd cyfoethocaf y byd – a gyfoethogwyd trwy wladychu, caethwasiaeth a diwydiannu – yn dal i ddominyddu masnach, cyllid a llywodraethiant, tra bo De'r Byd yn dwyn baich yr argyfyngau y bu iddo wneud y lleiaf i'w hachosi: o drychinebau hinsawdd ac argyfyngau dyled i anghydraddoldeb iechyd a dadleoli torfol.

Nid damweiniau mo'r anghyfiawnderau hyn; maent wedi'u gwreiddio mewn systemau canrifoedd oed sy'n ffafrio elw dros bobl ac yn parhau anghydraddoldebau rhwng hiliau, y rhywiau, ac economïau.[108] Mae argyfyngau dyngarol hirfaith 'nawr yn para degawd ar gyfartaledd, tra bo achosion o dorri cyfraith ddyngarol ryngwladol – fel sy'n digwydd yn Gaza – yn parhau gyda chanlyniadau dinistriol.[109] Mae un o bob pum plentyn ledled y byd, tua 400 miliwn, yn byw yng nghanol gwrthdaro neu'n ffoi rhagddo, ond dim ond hanner yr angen a ddiwallwyd gan apeliadau brys byd-eang yn 2024.[110]

I Ddeiseb Heddwch hanesyddol Menywod[103] Cymru, a lofnodwyd gan bron **400,000** o fenywod.

Mae Cymru yn Genedl Noddfa,[107] sy'n ymgorffori diwylliant a gwerthoedd Cymru trwy groesawu ac integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Rhaid i Gymru gryfhau ei rôl o fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae hyn yn golygu buddsoddi'n ddigonol ac ehangu partneriaethau rhyngwladol trwy raglenni megis Cymru ac Affrica,[111] Maint Cymru[112] a Cymru Masnach Deg,[113] yn ogystal â chyfrannu at apeliadau dyngarol trwy Bwyllgor Argyfyngau Brys Cymru a chefnogi ymdrechion i geisio sicrhau heddwch – yn enwedig y rheiny sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau a hawliau menywod. Mae hefyd yn golygu codi llais yn erbyn anghyfiawnderau byd-eang a defnyddio pob lifer domestig sydd ar gael i roi pwysau o ran sicrhau heddwch. Ac eto mae cyllid ar gyfer undod rhyngwladol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael ei dorri yn ystod y blynyddoedd diwethaf a rhaid iddo dyfu mewn termau real, yn enwedig o ystyried toriadau digynsail i gymorth ariannol yn y DU.[114]

Ond nid yw cyfrifoldeb byd-eang yn ymwneud ag arian yn unig; mae hefyd yn ymwneud â datgymalu systemau anghyfiawn, sicrhau nad oes gan Gymru ran yn y weithred o ecsbloetio, a defnyddio pob lifer domestig i hyrwyddo heddwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd.

Mae hynny'n gofyn am drefniadau masnach, caffael a buddsoddi moesegol, gyda gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn seiliedig ar hawliau dynol a chyfreithiau rhyngwladol. Mae arfer Cymru o fewnforio nwyddau megis olew palmwydd, soi a choco yn ysgogi datgoedwigo ac achosion o dorri hawliau dynol dramor, tra bo cronfeydd pensiwn cyhoeddus Cymru yn dal o leiaf £227.9 miliwn mewn tanwyddau ffosil[115] ac yn wynebu gwerth bron £10 biliwn o risgiau sy'n gysylltiedig â datgoedwigo.[116] Ni ddylai arian cyhoeddus ariannu camdriniaeth, datgoedwigo na niwed i'r hinsawdd dramor. Mae Cod Ymarfer 2024 Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi[117] yn gam ymlaen, ond rhaid ei baru â diwydrwydd dyladwy a gorfodaeth.

Mae angen i Gymru hefyd osgoi'r broses raddol o filwreiddio polisi cyhoeddus, gan sicrhau nad yw penderfyniadau ynghylch gwariant yn atgyfnerthu gwrthdaro neu anghyfiawnder. Yn hytrach, rhaid i'n dull ni fod wedi'i seilio'n ddwfn ar hawliau dynol, tosturi a chyfiawnder byd-eang – o bolisi mudo i weithredu ar newid hinsawdd.

Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud yn arbennig o dda fel cenedl fach yw cysylltu – o gymunedau alltud, i sefydliadau anllywodraethol rhyngwladol a grwpiau ar lawr gwlad sy'n cysylltu â phartneriaid ledled y byd. Mae'r lleisiau a'r rhwydweithiau hyn yn rhoi cyfle unigryw i Gymru fodelu sut olwg, mewn gwirionedd, sydd ar genedl deg sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac yn canolbwyntio ar ofalu am bobl a'r blaned.

Er mwyn helpu i sicrhau cyfiawnder byd-eang, rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ar hyn o bryd yn Senedd Cymru, neu sy'n ceisio cael eu hethol, i ymrwymo i'r canlynol:

## 1. Ymgorfforri cyfrifoldeb byd-eang ar draws pob polisi

**Rhaid i gyfrifoldeb byd-eang fod yn egwyddor arweiniol, nid yn arwydd symbolaidd.** Dylai pob adran o Lywodraeth Cymru gysoni polisïau masnach, caffael, buddsoddi, hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau nad yw Cymru'n gwneud unrhyw niwed dramor a'i bod yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol lle bo hynny'n bosibl.

## 2. Cryfhau a sicrhau adnoddau ar gyfer datblygiad rhyngwladol yng Nghymru

Rhaid gwrthdroi toriadau diweddar i ddarparu cyllid hirdymor, cynaliadwy ar gyfer partneriaethau sy'n cael eu llywio gan werthoedd a'u harwain gan y gymuned, er enghraifft Cymru ac Affrica a mentrau tebyg i Raglen Coed Mbale.[118] Dylid amddiffyn ac ehangu'r cynlluniau hyn – cynlluniau sydd eisoes wedi plannu miliynau o goed, lleihau allyriadau carbon, gwella bywoliaethau, a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau trwy hyfforddi aelodau'r gymuned i feithrin ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â rhywedd, grymuso menywod i fod yn hyrwyddwyr rhywedd, ac ysbrydoli plant Cymru i ddod yn ddinasyddion byd-eang.[119] Dylai Cymru ffurfioli partneriaethau a gweithio ochr yn ochr â phartneriaid anllywodraethol sydd â pherthnasoedd lleol cryf, gan sicrhau bod ymdrechion datblygu wedi'u gwreiddio yn anghenion y gymuned ac yn cael eu harwain gan leisiau dibynadwy ar lawr gwlad.

## 3. Cyhoeddi Strategaeth Datblygiad Rhyngwladol sy'n sefyll ar ei phen ei hun

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru lunio a gweithredu Strategaeth Datblygu Rhyngwladol uchelgeisiol sydd wedi'i gwreiddio mewn undod, cyfiawnder hinsawdd, tegwch a hawliau dynol. Dylai'r strategaeth hon ymrwymo'n benodol i ddatblygiad ffeministaidd croestoriadol ac i gefnogi galwadau partneriaid yn Ne'r Byd am gyfiawnder adferol, gan gydnabod niwed hanesyddol a pharhaus gwladychu ac echdynnu adnoddau. Rhaid iddi gael ei llunio ar y cyd â chymdeithas sifil, cymunedau alltud a phartneriaid yn Ne'r Byd, gan symud y pŵer i ddulliau gweithredu a arweinir yn lleol a darparu

cymorth hyblyg, hirdymor i sefydliadau hawliau menywod a rhwydweithiau ffeministaidd. Trwy wneud hynny, dylai Cymru hefyd ddysgu gan gymunedau yn Ne'r Byd, a sicrhau bod rhaglen Cymru ac Affrica yn cael ei datblygu trwy bartneriaeth o gydgyfnewid a dysgu cyd-rhwng y naill a'r llall.

## 4. Arwain heddwch, hawliau dynol a chyfiawnder hinsawdd




**Rhaid i Gymru ddefnyddio ei llais rhyngwladol i hyrwyddo heddwch, hawliau dynol a chyfiawnder hinsawdd. Mae hyn yn golygu gwrthwynebu gwerthiant arfau sy'n tanio gwrthdaro, ymrwymo erbyn 2030 i arferion caffael nad ydynt yn gysylltiedig â datgoedwigo, a sefyll ochr yn ochr â chymunedau wedi'u hymyleiddio sy'n wynebu argyfyngau, megis yn Gaza.**

Llun: Oxfam Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n gyson i gynnal cyfraith ryngwladol a hawliau dynol, gan sicrhau bod Cymru'n cael ei chydnabod fel cenedl heddwch a chydsafiad.

## 5. Arddangos Cymru fel cenedl llesiant

Dylai Cymru hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i model o economi llesiant ar y llwyfan byd-eang. Trwy ysgwyddo rôl arweinyddiaeth mewn mentrau megis partneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant (WEGo)[120] a Ras i Sero,[121] gall Cymru ddangos sut y gall cenedl fach arwain trwy esiampl o ran adeiladu economi fyd-eang gynaliadwy sy'n seiliedig ar werthoedd.

## 6. Sicrhau cydlyniad, atebolrwydd a chraffu

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sefydlu atebolrwydd rhyngweinidogol cadarn a mecanweithiau craffu Seneddol ar gyfer polisïau rhyngwladol. Dylai ffurfioli ymgysylltiad â chynghreiriau cymdeithas sifil, megis Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru, ac ymrwymo i adrodd tryloyw a chanlyniadau mesuradwy ar gyfer yr holl weithgarwch rhyngwladol. Mae'r camau hyn yn hanfodol i gyflawni polisïau rhyngwladol cydlynol a thryloyw.

## 7. Mabwysiadu dull ffeministaidd o fynd i'r afael â materion allanol

Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni ymrwymiadau Cymru o ran llywodraeth ffeministaidd trwy ymgorffori egwyddorion ffeministaidd ym mhob partneriaeth ryngwladol. Mae hyn yn golygu cynnal cyfraith ryngwladol yn gyson, tynnu sylw at droseddau rhyfel ac achosion o dorri cyfraith ddyngarol, a chynnal buddsoddiad mewn arweinyddiaeth menywod o ran ceisio sicrhau heddwch, yn enwedig trwy fentrau dan arweiniad De'r Byd.

## 8. Sicrhau nad oes gan Gymru unrhyw ran yn erchyllterau Israel ym Mhalesteina

Mae hil-laddiad Llywodraeth Israel yn erbyn y Palesteiniaid yn Gaza wedi croesi sawl llinell goch.[122] Mae Oxfam yn ailddatgan hyn ar sail tystiolaeth helaeth o ddadansoddiadau cyfreithiol swyddogol hygred, gan arbenigwyr yn y Cenhedloedd Unedig, a thrwy ein profiad ein hunain o fod yn dystion i'r drychineb ddyngarol.[123] Rhaid dwyn pob parti i gyfrif am achosion o dorri cyfraith ryngwladol. Er bod Oxfam yn condemnio'r ymosodiadau erchyll gan Hamas ar 7 Hydref 2023, mae gan bawb ddyletswydd i roi'r pwysau mwyaf posibl i helpu i sicrhau cadoediad parhaol a chaniatáu mynediad di-rwystr i gymorth dyngarol a chyflenwadau masnachol. Yn unol ag Erthygl IV o

Gonfensiwn Hil-laddiad 1948, mae'n ofynnol i drydydd gwladwriaethau gymryd camau i atal a chosbi trosedd Hil-laddiad. Hyd yn hyn, mae 153 o wladwriaethau, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, yn rhan o'r Confensiwn.[124]

**Rhaid i Gymru sicrhau, o leiaf, nad oes ganddi, mewn unrhyw ffordd, ran yn y troseddau rhyfel na'r troseddau yn erbyn dynoliaeth, a gwneud popeth posibl i roi pwysau, gan gynnwys mynnu camau gweithredu gan Lywodraeth y DU.**[125]

Rhaid i ni anfon neges glir: rhaid i Lywodraeth Israel ufuddhau i gadoediad parhaol, codi'r gwarchae, gwarantu mynediad dyngarol di-rwystr, rhyddhau'r holl Balesteiniaid sy'n cael eu dal yn anghyfreithlon, ac ufuddhau i gyfraith ryngwladol, dyfarniadau'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, a phenderfyniadau'r Cenhedloedd Unedig. Rhaid i Gymru chwarae ei rhan mewn perthynas â sicrhau cydymffurfedd Israel.

Rhaid i'r Senedd hefyd ymuno â gwledydd eraill i alw ar i'r holl ymdrechion ailadeiladu ac adfer yn Gaza gael eu harwain gan Balesteiniaid, eu cydlynu dan fframwaith y Cenhedloedd Unedig, a'u tywys gan arweinyddiaeth gynhwysol Balesteinaidd ar draws cymdeithas sifil, y llywodraeth, a'r sector preifat, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth wirioneddol, atebolrwydd, a heddwch parhaol.

## 9. Creu pwysau ar Israel ddod â'i meddiannaeth anghyfreithlon o diriogaeth Palesteina i ben

Rhaid i'r Senedd nesaf weithredu ar ddyfarniad y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol fod meddiannaeth Israel o diriogaeth Palesteina yn anghyfreithlon.[126] Dylai llywodraeth y dyfodol gyfarwyddo a chyhoeddi adolygiad diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad yw hi na gweithredwyr eraill yng Nghymru yn rhan o'r feddiannaeth hon. Rhaid gwahardd masnach a chaffael cyhoeddus gan gwmnïau sydd wedi'u lleoli mewn aneddiadau anghyfreithlon yn y Tiriogaeth Palesteinaidd dan Feddiannaeth, a dylid ailstrwythuro masnach gyda chwmnïau sy'n gysylltiedig ag aneddiadau i roi pwysau economaidd clir i ddod â'r arferion anghyfreithlon hyn i ben. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda phartneriaid i adeiladu pwysau rhyngwladol i roi terfyn ar y feddiannaeth.

Dylai'r Senedd gymryd camau pendant i sicrhau bod pob achos o gaffael cyhoeddus, masnachu a buddsoddi yng Nghymru yn cyd-fynd yn llawn â chyfraith ryngwladol a hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu a gweithredu deddfwriaeth sy'n mynd ati'n benodol i wahardd masnach, gwasanaethau a buddsoddiadau gyda aneddiadau anghyfreithlon; cymryd camau rhagweithiol i nodi ac atal unrhyw gymorth ariannol, masnachol,

diplomyddol, milwrol neu logistaidd sy'n cynorthwyo neu'n cynnal meddiannaeth anghyfreithlon Israel o diriogaeth Palesteina; a chyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corfforaeth a sefydliad ariannol sydd â'i bencadlys yng Nghymru gynnal diwydrwydd dyladwy gorfodol mewn perthynas â hawliau dynol a'r amgylchedd, yn unol â safonau rhyngwladol.[127]

Rhaid i'r Senedd sicrhau nad yw cydnabod Gwladwriaeth Palesteina yn weithred symbolaidd yn unig, ond ei bod yn rhan o strategaeth ddi-droi'n-ôl i roi terfyn ar feddiannaeth Israel a datgymalu aneddiadau anghyfreithlon yn unol â chyfraith ryngwladol. Rhaid i'r gydnabyddiaeth hon gefnogi'r broses o sefydlu sofraniaeth Balesteinaidd lawn dros ei diogelwch, ei heconomi a'i hadnoddau naturiol, gan gynnal hawliau dynol sylfaenol i bawb. Dylai hefyd gryfhau cymdeithas sifil a llywodraethu democrataidd ym Mhalesteina.

## 10. Sicrhau bod y cyhoedd a busnesau yn ymrwymo i gyfiawnder byd-eang

Rhaid i gyfiawnder byd-eang fod yn fwy nag egwyddor – rhaid iddo fod yn arfer cyffredinol. Dylai Cymru arwain trwy feithrin dinasyddiaeth wybodus a gweithredol sy'n deall y cysylltiadau rhwng gweithredu lleol ac effaith fyd-eang – o gyfiawnder hinsawdd i fudo, cyfiawnder hiliol i gyfiawnder treth. Mae hyn yn gofyn am gryfhau addysg dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion i roi'r wybodaeth a'r gwerthoedd i bobl ifanc weithredu dros fyd tecach, gan ddyfnhau ymrwymiad Cymru o ran bod yn Genedl Masnach Deg, a chefnogi busnesau i fabwysiadu arferion moesegol trwy safonau caffael a buddsoddi cadarn. Trwy ymgysylltu â'r sectorau cyhoeddus a phreifat.



**Gall Cymru ddangos y gall cenedl fach wneud gwahaniaeth mawr – gan hyrwyddo tegwch, cydsafiad a chynaliadwyedd, gartref ac ar y llwyfan byd-eang.**

Llun: Menywod yn rhedeg meithrinfa goed yn Bumaena, rhan o Raglen Tyfu Coed Mbale a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi dosbarthu dros 25 miliwn o goed ers 2009, gan gefnogi bywoliaeth leol a gwydnwch hinsawdd. Credyd llun: Maint Cymru

# CYFLAWNI AR GYFER POBL A'R BLANED

**Mae'r maniffesto hwn yn nodi gweledigaeth feiddgar ar gyfer Cymru decach, wyrddach a mwy gofalgar – un sy'n darparu cyfiawnder economaidd, cymdeithasol, hinsawdd a byd-eang i bawb.**

Wrth galon y maniffesto mae yna ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb systemig, ailddosbarthu cyfoeth a phŵer, a rhoi gofal, urddas a hawliau dynol wrth wraidd y broses llunio polisïau.

Mae'r heriau a wynebwn yn rhai brys: tlodi sy'n ystyfnig o uchel, anghydraddoldeb sy'n dyfnhau, argyfwng hinsawdd, ac anghyfiawnderau byd-eang. Mae'r argyfyngau hyn yn gydgysylltiedig ac yn galw am ddull cydlynol a thrawsnewidiol. Nid yw busnes fel arfer yn opsiwn.

Rydym wedi amlinellu camau gweithredu uchelgeisiol ond cyraeddadwy ar draws pedwar piler cyfiawnder:



**Cyfiawnder economaidd:** Diwygio fframwaith cyllidol Cymru, mabwysiadu trethiant tecach, a buddsoddi mewn atal, gofal a seilwaith cymdeithasol.



**Cyfiawnder cymdeithasol:** Cyflawni strategaeth gwrthdlodi gynhwysfawr, ehangu gofal plant a ariennir, cryfhau System Budd-daliadau Cymru, a rhoi gwerth ar ofal fel seilwaith hanfodol.



**Cyfiawnder hinsawdd:** Cyflymu cyfnod pontio teg i economi carbon isel, cynnwys tegwch ym mhob polisi hinsawdd, a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.



**Cyfiawnder byd-eang:** Cryfhau rôl Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, cynnal hawliau dynol, a sicrhau masnach, trefniadau caffael a buddsoddiad moesegol.

Bydd gwireddu'r weledigaeth hon yn gofyn am **ddewrder gwleidyddol, meddwl yn yr hirdymor, a buddsoddiad cynaliadwy**. Mae'n golygu **llywodraethu tryloyw, atebol** ac ymgysylltiad gwirioneddol â'r rheiny y mae anghyfiawnder yn effeithio arnynt fwyaf. Mae hefyd yn golygu herio buddiannau sefydledig a gwneud dewisiadau beiddgar i roi blaenoriaeth i bobl a'r blaned dros elw.

Bydd etholiad y **Senedd yn 2026** yn adeg dyngedfennol. Rhaid i bob plaid wleidyddol nodi'r canlynol:

- **Y polisïau y byddant yn eu mabwysiadu i gyflawni cyfiawnder economaidd, cymdeithasol, hinsawdd a byd-eang.**
- **Y modd y bydd yn ariannu'r blaenoriaethau hyn yn deg ac yn gynaliadwy.**
- **Y canlyniadau mesuradwy y bydd yn eu cyflawni erbyn 2031.**

Nid dewis gwleidyddol yn unig yw hwn, ond rheidrwydd moesol. Mae gan Gymru yr adnoddau a'r fframwaith cyfreithiol i sicrhau newid, ynghyd â'r awydd cyhoeddus amdano. Yr hyn sy'n ofynnol 'nawr yw'r **ewyllys a'r arweinyddiaeth wleidyddol i weithredu mewn modd penderfynol** – i gyflawni dyfodol tecach i bawb sy'n byw yma ac i chwarae ein rhan yn y broses o adeiladu byd mwy cyfiawn.

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i'r weledigaeth hon yn ei maniffesto, a mynd ati i nodi'n glir y modd y byddant yn ei chyflawni – trwy gyfrwng polisïau beiddgar, cyllid teg, a chanlyniadau mesuradwy. Mae gan Gymru y cyfle i arwain trwy esiampl, gan ddangos y gall cenedl fach ysgogi newid mawr. Trwy weithio gyda'n gilydd – y llywodraeth, pleidiau, cymdeithas sifil, a chymunedau – gallwn sicrhau bod Cymru wir yn hyrwyddwr cyfiawnder, cydraddoldeb, a chynaliadwyedd, a hynny ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, ac ar gyfer pobl ym mhobman.

# CYFEIRIADAU


1. Banc y Byd (2024) Poverty, Prosperity, and Planet Report, Pathways Out of the Polycrisis.
2. Swyddfa Cydlynu Materion Dyngarol y Cenhedloedd Unedig (2025) Global Humanitarian Overview 2025, OCHA
3. Banc y Byd (2025) June 2025 Update to the Poverty and Inequality Platform (PIP)
4. A. Taneja et al. (2025). Takers not Makers: The unjust poverty and unearned wealth of colonialism. Oxfam
5. O. Ghannam et al. (2025). From Private Profit to Public Power: Financing Development, Not Oligarchy. Oxfam.
6. Ibid.
7. B. Duffy et al. (2021). The "fault lines" in the UK's culture wars. Coleg y Brenin, Llundain.
8. StatsCymru (2025) Poverty
9. StatsCymru (2025), People in relative income poverty by family type
10. StatsCymru (2025), People in relative income poverty by ethnic group of the head of household
11. StatsCymru (2025). People in relative income poverty by whether there is disability within the family (Equality Act definition).
12. StatsCymru (2025). People in relative income poverty by family type
13. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2023). Families and households in the UK: 2022
14. StatsCymru. (2024). Children in relative income poverty by age of youngest child in family.
15. Ibid.
16. Sefydliad Bevan (2025) Is it time to rethink action to reduce poverty, asks Victoria Winckler, Director of the Bevan Foundationhttps://www.bevanfoundation.org/current-projects/what-works-to-solve-poverty-in-wales/
17. Turkmen H. (2023) Little Steps, Big Struggles: Childcare in Wales, Clymblaid Oxfam Cymru a Gwneud Gofal yn Deg
18. Sefydliad Bevan (2025). What works to solve poverty in Wales.
19. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, cyhoeddwyd Ebr 2024-Maw 2025, wedi'i adalw trwy NOMIS
20. Ibid.
21. Ibid.
22. Ibid.
23. Ibid.
24. Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, amcanestyniadau 2024, wedi'i adalw trwy NOMIS.
25. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, cyhoeddwyd Ebr 2024-Maw 2025, wedi'i adalw trwy NOMIS.
26. Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, amcanestyniadau 2024, wedi'i adalw trwy NOMIS.
27. Parvez-Butt, A. et al. (2023) Radical Pathways Beyond GDP: Why and how we need to pursue feminist and decolonial alternatives urgently, Oxfam
28. Ibid.
29. Bristow, G. (2018). The Barnett Formula and its Consequences for Wales: A Literature Review. Prifysgol Caerdydd
30. Bardens, J. and Webb, D. (2012). Holtham Commission. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin
31. Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru. (2024). Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol
32. Y Sefydliad Materion Cymreig. (2013). How to reform the Barnett formula.
33. Shipton, M. (2025). Wales has lost £431m in HS2 funding so far, says Welsh Government. Nation Cymru
34. Llywodraeth Cymru (2025). Cyllideb Derfynol 2025 i 2026
35. Sefydliad Bevan. (2025). The impact of policy interventions designed to reduce poverty in Wales
36. Rossiter, J. (2025) A Flourishing Wellbeing Economy for Wales, Oxfam Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig
37. Ibid.
38. Rossiter, J. (2024). The future of devolved taxation in Wales. Chartered Institute of Taxation, Sefydliad Materion Cymreig; and Thompson, H. (2022). Fiscal Firepower: Effective Policy-Making in Wales, Sefydliad Materion Cymreig
39. Bevan Foundation. (2024). Our views on Welsh Council Tax support
40. Rossiter, J. (2025) A Flourishing Wellbeing Economy for Wales, Oxfam Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig
41. Ibid.
42. Ibid.
43. Parken, A. and MacBride-Stewart, S. (2025). Green, Fair and Caring: A Feminist Roadmap for Wales, Oxfam Cymru.
44. Rossiter, J. (2025) A Flourishing Wellbeing Economy for Wales, Oxfam Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig
45. Parken, A. and MacBride-Stewart, S. (2025). Green, Fair and Caring: A Feminist Roadmap for Wales, Oxfam Cymru.

46. Ibid.
47. Ibid.
48. Turkmen H. (2023) Little Steps, Big Struggles: Childcare in Wales, Clymblaid Oxfam Cymru a Gwneud Gofal yn Deg
49. Sefydliad Bevan. (2025). Another year of no progress in reducing poverty in Wales
50. Analysis from DWP Stat-Xplore, Benefit Statistics, People on Universal Credit and Joseph Rowntree Foundation (2025), Poverty in Wales.
51. Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. (2024). State of the Nations: lessons in tackling child poverty from across the four nations
52. Sefydliad Bevan. (2025). The impact of disability benefit reforms in Wales
53. Ibid.
54. Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. (n.d.) Anableddau Dysgu, Corfforol a Synhwyraidd
55. Senedd Cymru. (2025). System Fudd-daliadau Cymru – beth ydyw, a beth yw'r datblygiadau diweddaraf?
56. Sefydliad Bevan (2023). A common approach to Welsh benefits: Feasibility study.
57. Gofalwyr Cymru, Sefydliad Bevan ac Oxfam Cymru (2025). Cerdyn Sgorio Polisi Gofal ar gyfer Cymru
58. Gofalwyr Cymru, (2024). Poverty and financial hardship of unpaid carers in Wales and Carers Wales (2022). State of Caring in Wales 2022
59. Gofalwyr Cymru, Sefydliad Bevan ac Oxfam Cymru (2025). Cerdyn Sgorio Polisi Gofal ar gyfer Cymru
60. StatsCymru (2025). Plant mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd
61. StatsCymru (2025). Oedolion oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd
62. StatsCymru (2025). Pobl mewn tlodi incwm cymharol yn ôl y math o deulu
63. Turkmen H. (2023) Little Steps, Big Struggles: Childcare in Wales, Clymblaid Oxfam Cymru a Gwneud Gofal yn Deg
64. Sefydliad Bevan. Expert Advisory Group calls for commitment to childcare for all two-year-olds (2025)
65. Pregnant Then Screwed a'r NEF (2024). Welsh families are spending £46,215 per child for full time childcare. It's time for a Family Childcare Promise.
66. Sefydliad Materion Cymreig (2025). We need to talk about homes
67. Llywodraeth Cymru. (2024). Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024
68. Sefydliad Bevan. Expert Advisory Group calls for commitment to childcare for all two-year-olds (2025)
69. Gofal Cymdeithasol Cymru. (2025). Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
70. Gofalwyr Cymru, Sefydliad Bevan ac Oxfam Cymru (2025). Cerdyn Sgorio Polisi Gofal ar gyfer Cymru
71. Oxfam Cymru a WeCare (2023) Cyfarwyddyd heb ei gyhoeddi
72. Ymddiriedolaeth y Gofalwyr. (n.d.) Carers Support Fund Programme.
73. Gofalwyr Cymru, Sefydliad Bevan ac Oxfam Cymru (2025). Cerdyn Sgorio Polisi Gofal ar gyfer Cymru
74. Ibid.
75. Ibid.
76. Ibid.
77. Ibid.
78. Ibid.
79. Ibid.
80. Sefydliad Bevan (2024). Childcare Briefing: Final
81. Pregnant Then Screwed (2024). Welsh families are spending £46,215 per child for full time childcare. It's time for a Family Childcare Promise, op cit.
82. Llywodraeth Cymru (2022). Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol
83. Parken, A. et al. (2023). An Equal and Just Transition to Net Zero: Summary Report of the Mainstreaming Equality Evidence Panel. Prifysgol Caerdydd.
84. Llywodraeth Cymru (n.d.), Gweithredu ar Newid Hinsawdd
85. Llywodraeth Cymru. (2024). Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Adroddiadau Terfynol Grŵp Her Sero Net Cymru 2035
86. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2023). Adroddiad Cynnydd: Lleihau allyriadau yng Nghymru.
87. Grŵp Sero Net Cymru 2035 (2024). Adroddiad Cryno: Llwybrau i Gymru Lewyrchus a Gwydn mewn dyfodol newidiol
88. Ibid.
89. Ibid.
90. An Equal and Just Transition to Net Zero: Summary Report of the Mainstreaming Equality Evidence Panel op.cit.
91. Parken, A. and MacBride-Stewart, S. (2025). Green, Fair and Caring: A Feminist Roadmap for Wales, Oxfam Cymru.
92. Rossiter, J. (2025) A Flourishing Wellbeing Economy for Wales, Oxfam Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig.

93. Llywodraeth Cymru. (2024). Crynodeb o'r Fframwaith Pontio Teg
94. Parken, A. and MacBride-Stewart, S. (2025). Green, Fair and Caring: A Feminist Roadmap for Wales, Oxfam Cymru.
95. Ibid.
96. Ibid.
97. Dalabajan, D. et al. (2022) Towards a Just Energy Transition: Implications for communities in lower- and middle-income countries - Oxfam Policy & Practice
98. Ymchwil y Senedd (2025) Ystad y Goron: Pigion.
99. Ras i Sero Cymru.
100. Partneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant (WEGo).
101. Fossil Fuel Non-Proliferation Treaty Initiative.
102. Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. (n.d.) Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru (WLNU), 1918-1946
103. Welsh Centre for International Affairs. (n.d.) 1923 Welsh Women's Peace Appeal – WCIA work prior to Centenary Project.
104. Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. (n.d.) Apêl Merched dros Heddwch, 1923-24 – Gwaith y Ganolfan cyn y Prosiect Canmlwyddiant.
105. Llywodraeth Cymru. (2025). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion.
106. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. (n.d.) Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.
107. Llywodraeth Cymru. (2019). Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.
108. Taneja, A. (2025). Takers not Makers: The unjust poverty and unearned wealth of colonialism. Oxfam.
109. OCHA. (2024). Global Humanitarian Overview 2025.
110. OCHA. (2025). Humanitarian aid contributions 2025.
111. Llywodraeth Cymru (2025). Cymru ac Affrica.
112. Maint Cymru
113. Rydym yn cefnogi, tyfu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg – Cymru Masnach Deg
114. Future of UK international aid: MPs launch inquiry amidst 40% budget cut - Pwyllgorau – Senedd y DU
115. Platform UK Divest (n.d.) Wales Pensions Partnership
116. Rees, K. (2024) Saving for the future: are Welsh public pensions putting our future at risk? - Y Sefydliad Materion Cymreig
117. Llywodraeth Cymru. (2025). Cod ymarfer: cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi
118. Maint Cymru (n.d.). Uganda: Rhaglen Coed Mbale
119. Maint Cymru (n.d.).Prosiect rhywedd trawsnewidiol – tystiolaeth o lygad y ffynnon gan fenywod pentref Bumaena a Size of Wales project helps plant 25 million trees in Uganda
120. Partneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant (WEGo).
121. Ras i Sero Cymru.
122. Oxfam GB. (2025). Red Line for Gaza.
123. Oxfam GB. (2025). What's happening in Gaza? .
124. Y Cenhedloedd Unedig. (1948). The Convention on the Prevention and Punishment of the Crime of Genocide.
125. Oxfam GB. (2025). Red Line for Gaza.
126. Y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol (2024). Legal Consequences Arising from The Policies And Practices Of Israel In The Occupied Palestinian Territory, Including East Jerusalem. a'r Cenhedloedd Unedig.. (2024). Implementation of ICJ Advisory Opinion: State, GA, SecCo obligations – Position Paper of the United Nations Independent International Commission of Inquiry on the Occupied Palestinian Territory, including East Jerusalem, and Israel.
127. Stop Trade with Settlements. (2025). Trading with Illegal Settlements: How Foreign States and Corporations Enable Israel's Illegal Settlement Enterprise




# RHAID I LYWODRAETH NESAF CYMRU WEITHREDU'N BENDANT I SICRHAU URDDAS, CYDRADDOLDEB A CHYFLE I BAWB, GAN SICRHAU NAD OES NEB YNG NGHYMRU YN CAEL EI ADAEL AR ÔL.

Llun: Oxfam Cymru

# YNGLŶN AG OXFAM

Mae Oxfam yn fudiad byd-eang o bobl sy'n ymladd anghydraddoldeb i roi terfyn ar dlodi ac anghyfiawnder. Rydym yn gweithio ar draws rhanbarthau mewn mwy na 70 o wledydd, gyda miloedd o bartneriaid a chynghreiriaid, gan gefnogi cymunedau i adeiladu bywydau gwell iddyn nhw eu hunain, tyfu gwydnwch ac amddiffyn bywydau a bywoliaeth hefyd mewn cyfnodau o argyfwng. Ysgrifennwch at unrhyw un o'r asiantaethau am ragor o wybodaeth neu ewch i www.oxfam.org.

Oxfam America (www.oxfamamerica.org)
Oxfam Aotearoa (www.oxfam.org.nz)
Oxfam Awstralia (www.oxfam.org.au)
Oxfam-yng-Ngwlad Belg (www.oxfamsol.be)
Oxfam Brasil (www.oxfam.org.br)
Oxfam Canada (www.oxfam.ca)
Oxfam Colombia (www.oxfamcolombia.org)
Oxfam Ffrainc (www.oxfamfrance.org)
Oxfam yr Almaen (www.oxfam.de)
Oxfam GB (www.oxfam.org.uk)
Oxfam Hong Kong (www.oxfam.org.hk)
Oxfam Denmarc (www.oxfam.dk)
Oxfam India (www.oxfamindia.org)
Oxfam Intermón (Sbaen) (www.oxfamintermon.org)
Oxfam Iwerddon (www.oxfamireland.org)
Oxfam Yr Eidal (www.oxfamitalia.org)
Oxfam Mecsico (www.oxfammexico.org)
Oxfam Novib (Yr Iseldiroedd) (www.oxfamnovib.nl)
Oxfam Québec (www.oxfam.qc.ca)
Oxfam De Affrica (www.oxfam.org.za)
Oxfam KEDV (www.kedv.org.tr)
Oxfam Pilipinas (www.oxfam.org.ph)

© Oxfam Prydain Fawr Tachwedd 2025

Ysgrifennwyd y papur hwn gan Dr Hade Turkmen.

Mae Oxfam yn cydnabod cymorth Sarah Rees, Gwern Gwynfil, Silvia Galandini, Chiara Liguori, Joss Saunders, Martin Butcher, Richard Stanford ac Emma Kuria.

Gweld yr adroddiad ar-lein

Am ragor o wybodaeth am y materion a godwyd yn y papur hwn, anfonwch e-bost at oxfamcymru@oxfam.org.uk

Mae hawlfraint ar y cyhoeddiad hwn ond gellir defnyddio'r testun yn rhad ac am ddim at ddibenion eiriolaeth, ymgyrchu, addysg ac ymchwil, ar yr amod bod y ffynhonnell yn cael ei chydnabod yn llawn. Mae deiliad yr hawlfraint yn gofyn bod pob defnydd o'r fath yn cael ei gofrestru gyda nhw at ddibenion asesu effaith. Ar gyfer copïo mewn unrhyw amgylchiadau eraill, neu i'w ailddefnyddio mewn cyhoeddiadau eraill, neu ar gyfer cyfieithu neu addasu, rhaid sicrhau caniatâd a gellir codi ffi. Ewch i https://policy-practice.oxfam.org/copyright-permissions.

Mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg mynd i'r wasg.

Cyhoeddwyd gan Oxfam GB ar gyfer Oxfam International o dan DOI:10.21201/2025.000096
Oxfam GB, Tŷ Oxfam, 2600 John Smith Drive, Rhydychen, OX4 2JY, DU.

OXFAM CYMRU